# Dull gweithredu arfaethedig CNC ar gyfer rheoleiddio rhyddhau adar hela (ffesantod cyffredin a phetris coesgoch) yng Nghymru

# Adroddiad ar nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd a'r mathau ohonynt

## Gorffennaf 2023

# Cynnwys


**Diben yr adroddiad hwn ....... 2**

**Cefndir yr ymgynghoriad ....... 2**

**Sut mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried ....... 3**

**Crynodeb cyffredinol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ....... 5**

**Ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ar-lein ....... 6**

**Ymatebion wedi'u cyflwyno trwy e-bost ....... 8**

**Negeseuon e-bost ymgyrchoedd ....... 8**

**Ymatebion a dderbyniwyd drwy'r post ....... 9**

**Atodiad 1: Sefydliadau rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad ....... 10**

**Atodiad 2: Testun safonol e-bost ymgyrch y Gynghrair Cefn Gwlad ....... 11**

**Atodiad 3: Testun safonol e-bost ymgyrch RSPB Cymru (Saesneg) ....... 14**

**Atodiad 4: Testun safonol e-bost ymgyrch RSPB Cymru (Cymraeg) ....... 15**

**Atodiad 5: Testun safonol e-bost ymgyrch y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon ....... 16**


# Diben yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cychwynnol i Lywodraeth Cymru o nifer yr ymatebion, a'r mathau ohonynt, a gawsom i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ein dull arfaethedig o reoleiddio rhyddhau adar hela yng Nghymru a sut y cânt eu gwerthuso. Mae'r gwerthusiad yn parhau a bydd adroddiadau pellach yn cael eu darparu maes o law.

Yn ogystal â'r crynodeb hwn, rydym wedi darparu copïau i Lywodraeth Cymru o'r holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad.

# Cefndir yr ymgynghoriad

Yn 2020, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd y bwriad i ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yng Nghymru a chyflwyno trefn drwyddedu briodol. Mae'r bwriad hwn wedi'i ailadrodd ers hynny gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, y mae'r gwaith bellach yn rhan o'i phortffolio hi. Gofynnwyd i swyddogion Llywodraeth Cymru ac CNC ystyried y dystiolaeth sydd ar gael a datblygu unrhyw ddull trwyddedu angenrheidiol i'w roi ar waith yn 2023 gyda'r bwriad y bydd yn dod i rym yn 2024. Mae CNC wedi cynnal adolygiad o'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol rhyddhau adar hela yng Nghymru, ac ym mha leoedd ac i ba raddau y mae hyn yn digwydd. Yn 2022, gwahoddwyd rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gyflwyno tystiolaeth, a

chawsom ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion. Gwnaethom hefyd gomisiynu dau adroddiad tystiolaeth i lywio ein gwaith ymhellach. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon gennym i ddatblygu dull gweithredu arfaethedig, a chynnig i gynghori'r Gweinidog Newid Hinsawdd i gymryd y camau angenrheidiol i ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 er mwyn sicrhau bod eu rhyddhau yng Nghymru yn digwydd o fewn fframwaith rheoleiddio.

Cynhaliasom ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o 27 Mawrth tan 20 Mehefin 2023 ar y cynigion hyn. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle statudol i unrhyw un yr effeithir arno gan y cynnig gyflwyno sylwadau fel sy'n ofynnol gan adran 26(4) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac ymrwymodd CNC i ddarparu'r ymatebion i'r rhan hon o'r ymgynghoriad, a chrynodeb ohonynt, i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd yr ymgynghoriad.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn ar gynigion ar gyfer dull CNC o drwyddedu rhyddhau adar pe bai'r Gweinidog yn bwriadu gwneud y gorchymyn i ychwanegu'r rhywogaethau hynny at Atodlen 9. Roedd y cynigion a'r rhesymeg y tu ôl iddynt wedi'u nodi mewn papur ymgynghori manwl a oedd yn cynnwys gwybodaeth gefndir a dolenni i ddogfennau perthnasol eraill. Gwnaethom hefyd gyhoeddi tri atodiad yn nodi ein rhesymeg mewn perthynas ag elfennau penodol o'r cynnig yn ogystal â'r ddau adroddiad tystiolaeth a gomisiynwyd fel rhan o'r adolygiad.

Gofynnwyd i ymatebwyr gyflwyno eu hymatebion gan ddefnyddio Hwb Ymgynghori CNC, sy'n defnyddio'r platfform ymgynghori ar-lein 'Citizen Space'. O dudalen lanio'r ymgynghoriad, gallai ymatebwyr ddarllen crynodeb o'r cynigion a lawrlwytho dogfen ymgynghori fanwl, ei hatodiadau ac adroddiadau tystiolaeth, yn ogystal â gweld cwestiynau'r ymgynghoriad.

Unwaith yr oedd ymateb wedi'i gyflwyno, cafodd yr ymatebwyr rif ymateb unigryw ac roeddent yn gallu gofyn am gopi PDF o'u hymateb. Er nad oedd unrhyw swyddogaeth i ganiatáu i ymatebwyr newid neu dynnu ymateb yn ôl drwy'r hwb, roedd yn bosibl iddynt gysylltu â thîm y prosiect a gofyn i'w hymatebion gael eu tynnu'n ôl â llaw. Roedd yr ymatebwyr yn gallu cyflwyno mwy nag un ymateb.

Darparodd ein hymgynghoriad ar-lein flychau testun rhydd i ddefnyddwyr gyflwyno eu hymatebion. Er bod rhai cwestiynau'n gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno'n fras ag elfennau o'r cynnig ai peidio, gofynnodd y cwestiynau hynny hefyd am y rhesymau pam yr oedd yr ymatebydd wedi mynegi'r farn honno.

Roedd ymatebwyr nad oeddent yn gallu ymateb gan ddefnyddio'r hwb ar-lein, neu'r rhain nad oeddent yn fodlon gwneud hynny, yn gallu cyflwyno ymatebion trwy e-bost neu drwy'r post.

# Sut mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried

Rydym yn defnyddio methodoleg ansoddol a elwir yn ddadansoddiad fframwaith thematig i werthuso'r ymatebion. Mae dadansoddi thematig yn ddull a gydnabyddir yn eang o ddadansoddi data ansoddol sy'n ei gwneud yn bosibl i ymchwilwyr lunio mewnwelediadau a chysyniadau sy'n deillio o ddata. Mae dadansoddi thematig yn cynnwys darllen trwy set ddata (sydd yn aml yn cael ei gymhwyso i dystebau personol, ymatebion ysgrifenedig i

ymgynghoriadau, trawsgrifiadau o grwpiau ffocws cyfweliadau ac ati) a nodi themâu, barnau neu safbwyntiau sy'n cael eu hailadrodd ar draws y set ddata.

Mae'r dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol lle mae ymchwilwyr lluosog yn gweithio ar yr un set ddata ac yn darparu methodoleg y gellir ei dilyn gan y rhai nad ydynt yn arbenigwyr mewn ymchwil ansoddol.

Oherwydd y nifer fawr iawn o ymatebion, rydym yn defnyddio dull hapsamplu. Bydd o leiaf ddau aelod o staff CNC yn adolygu sampl o 1,000 o ymatebion a ddewiswyd ar hap ar gyfer pob cwestiwn neu set o gwestiynau. Gwnaethom brofi meintiau sampl amrywiol a chanfod, ar ôl dadansoddi 1,000 o ymatebion, y cyrhaeddwyd pwynt dirlawnder lle nad oedd themâu pellach i'w gweld. Tybiwyd yn fras gennym fod thema a nodwyd yn y sampl yn debygol o gael ei hailadrodd mewn mannau eraill yn y boblogaeth. Er mwyn cynyddu nifer yr ymatebion a ystyriwyd, bydd pob adolygydd yn defnyddio sampl wahanol a ddewiswyd ar hap ar gyfer pob cwestiwn neu set o gwestiynau.[1] Unwaith y bydd sampl wedi'i dewis, er mwyn ei gwneud hi'n haws nodi themâu unigryw, bydd adolygwyr yn eu hidlo i ddileu ymatebion gwag neu ymatebion “torri a gludo” sy'n union yr un fath. Yn gyffredinol, bydd hyn yn cynnwys cyfuniad o gymhwyso swyddogaethau Excel a hidlo â llaw.

Nod y dadansoddiad hwn yw nodi themâu sy'n dod i'r amlwg, ac nid ydym yn bwriadu rhoi arwyddocâd arbennig i nifer yr ymatebwyr sy'n amlygu thema benodol. Felly, o ystyried ein bod yn defnyddio dull samplu, bydd yr holl themâu sy’n dod i’r amlwg ym mhob sampl yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad, gan ein bod yn tybio bod thema a nodir yn y sampl yn debygol o gael ei hailadrodd mewn mannau eraill yn y boblogaeth.

Rydym yn mabwysiadu ymagwedd anwythol, gan adeiladu'n gynyddol y themâu o'r ymatebion. Rydym yn diffinio’r themâu sy’n dod i’r amlwg wrth i bob ymateb gael ei ddarllen yn ei dro, gan ychwanegu themâu pellach pan nodir materion newydd, neu ychwanegu at, aralleirio neu rannu themâu a nodwyd eisoes. Y nod yw creu crynodeb cynhwysfawr o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymatebion a dderbyniwyd, yn hytrach na chyflwyno'n fanwl bob pwynt a wneir ym mhob ymateb.

Er mwyn diogelu rhag rhagfarn ddiarwybod bosibl, rydym hefyd wedi gofyn i ymgynghorydd annibynnol (sy'n arbenigo mewn dadansoddi ansoddol heb unrhyw gysylltiad blaenorol â'r prosiect hwn) gynnal dadansoddiad cadarnhau/datgadarnhau gan ddefnyddio'r un fethodoleg ar gyfer rhai o'r cwestiynau. Byddwn yn cymharu'r themâu a nodwyd gan bob adolygydd.

Er ein bod yn adolygu ymatebion gan sefydliadau rhanddeiliaid allweddol ar wahân, mae hyn yn bennaf am resymau ymarferol oherwydd hyd a natur fwy technegol yr ymatebion hyn. Nid ydym yn bwriadu gwahaniaethu’n sylfaenol rhwng themâu neu faterion a nodir gan sefydliadau a’r rhai a nodir gan unigolion, ac ni fyddwn yn rhagdybio y dylai’r cyntaf fod yn fwy pwysig. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall fod yn ddefnyddiol nodi lle mae rhai themâu yn cael eu codi gan randdeiliaid penodol, neu grwpiau o randdeiliaid, megis pan fydd mater sy’n ymwneud ag ymarferoldeb elfen benodol o’r dull gweithredu

[1] Oherwydd amryfusedd gweinyddol, dim ond ar ddiwrnod 4 o'r ymgynghoriad yr ychwanegwyd y cwestiynau Cymraeg. Hepgorwyd ymatebion a gyflwynwyd cyn y pwynt hwn cyn cymryd y sampl ar gyfer dadansoddi'r cwestiynau hynny ond fe'u cynhwyswyd ar gyfer cwestiynau eraill.

arfaethedig yn cael ei godi’n gyson gan sefydliadau a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr agwedd honno ar y cynnig.

Yn ogystal â nodi themâu allweddol gan ddefnyddio’r dull hwn, byddwn hefyd yn nodi unrhyw faterion technegol neu gyfreithiol penodol a godwyd ac yn cofnodi’r rheini ar wahân i’w hystyried gan arbenigwyr neu gyfreithwyr perthnasol.

# Crynodeb cyffredinol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd

Gwnaethom dderbyn **cyfanswm o 42,597** o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Roedd cyfanswm yr ymatebion yn cynnwys yr holl rai na chawsant eu tynnu'n ôl, gan gynnwys y rhai a oedd yn wag i bob pwrpas. Rydym yn amcangyfrif bod tua 3% o’r ymatebion a gyflwynwyd drwy’r ymgynghoriad ar-lein yn wag i bob pwrpas gan eu bod wedi rhoi enw a/neu gyfeiriad e-bost ond heb gynnwys unrhyw ymatebion sylweddol i unrhyw gwestiwn, na digon o wybodaeth i benderfynu’n rhesymol a oedd yr ymatebydd o blaid y cynigion yn fras ai peidio. Dim ond un cais a gawsom i dynnu ymateb yn ôl a chafodd yr ymateb hwnnw ei ddileu.

## Sut y cyflwynwyd ymatebion

Cyflwynwyd **27,840** o ymatebion (65.36%) ar-lein gan ddefnyddio Hwb Ymgynghori CNC, cyflwynwyd ymatebion **14,754** o ymatebion (34.64%) trwy e-bost, a chyflwynwyd **tri** (0.01%) ohonynt drwy’r post.

## Iaith yr ymatebion

Cyflwynwyd mwyafrif yr ymatebion yn Saesneg. Cyflwynwyd dau ymateb i’r ymgynghoriad Cymraeg ar-lein, ond cyflwynwyd rhai o’r rhai a gyflwynwyd i’r ymgynghoriad Saesneg yn rhannol neu’n gyfan gwbl yn Gymraeg. Cawsom hefyd ymatebion e-bost yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn Gymraeg.

## Lleoliad daearyddol yr ymatebwyr

Er na ofynnodd yr ymgynghoriad ar-lein ble roedd yr ymatebwyr wedi’u lleoli, roedd yn amlwg o ddarllen yr ymatebion, ac o’r samplau a ddadansoddwyd gennym gan ddefnyddio Google Analytics, bod ymatebion wedi dod i law o bob rhan o Gymru, y DU, Ewrop a thu hwnt. Roedd hyn hefyd yn wir am yr ymatebion e-bost hynny a oedd yn cynnwys gwybodaeth am leoliad yr ymatebydd. Daeth dau o'r ymatebion a dderbyniwyd drwy'r post o gyfeiriadau yng Nghymru ac un o Loegr.

## Ymatebion gan sefydliadau


Gofynnodd Cwestiwn 3 o'r ymgynghoriad ar-lein i ymatebwyr a oeddent yn cynrychioli sefydliad. Bwriad y cwestiwn hwn oedd nodi ymatebion ffurfiol gan gyrff rhanddeiliaid. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod llawer o ymatebwyr yn defnyddio'r cwestiwn hwn i nodi un neu fwy o sefydliadau yr oeddent yn cefnogi eu safbwyntiau neu yr oeddent yn aelodau ohonynt (fel Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain neu Wild Justice). Roedd yn ymddangos bod eraill yn dynodi eu cyflogwr. Roedd llawer o ymatebion yn nodi digwydiadau saethu neu fusnesau bach penodol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid ydym wedi trin yr ymatebion hyn yn wahanol yn ein dadansoddiad ac nid ydym yn bwriadu rhestru sefydliadau a nodwyd yn y modd hwn oni bai y gallwn fod yn hyderus bod yr ymateb yn ymateb sefydliadol swyddogol.

Cawsom ymatebion swyddogol gan sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol neu leol allweddol drwy'r hwb a thrwy e-bost. Roedd y rhain yn tueddu i fod yn sylweddol ac felly roedd y rhai a gyflwynwyd i'r hwb yn cael eu tynnu a'u rhoi mewn dogfennau ar wahân i'w gwneud yn haws eu hadolygu. Mae rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r sefydliadau rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

# Ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ar-lein

Yn gyfan gwbl, derbyniasom **27,840** o ymatebion drwy'r hwb ymgynghori.

Cawsom tua 2,500 o ymatebion i'r hwb yn ystod y 24 awr gyntaf a pharhawyd i dderbyn ymatebion ar bob diwrnod o'r cyfnod ymgynghori. Roedd patrwm o frigiau sylweddol, i bob golwg yn cyd-daro ag ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol rhanddeiliaid ar wahanol adegau. Nid oeddem yn gallu adnabod yn hyderus yr ysgogiad ar gyfer pob brig o ymatebion.




*Ffigur: Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i'r hwb ymgynghori bob 24 awr*

Cawsom lawer o adborth defnyddiol i'r ymgynghoriad, o ran barn gyffredinol ar effeithiolrwydd a chymesuredd rheoleiddio ychwanegol ond hefyd adborth ar elfennau penodol o'r hyn a gynigiwyd. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at eu profiad personol eu hunain wrth ddrafftio eu hymatebion, gan gynnig awgrymiadau am ffyrdd y teimlent y gellid gwella'r dull gweithredu arfaethedig.

Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o'r ymatebion a dderbyniwyd oedd yn ymatebion unigol sylweddol. Defnyddiodd llawer destun safonol ymgyrchoedd a ddarparwyd gan nifer o randdeiliaid a chafwyd ymatebion cyfyngedig iawn gan eraill, yn aml dim ond ateb "*ie*" neu "*na*" i bob cwestiwn. Dim ond rhai cwestiynau a atebodd llawer o ymatebwyr, gan adael eraill yn wag. Roedd tua 3-4% o'r ymatebion a gyflwynwyd naill ai'n gyfan gwbl wag (gydag enw a/neu gyfeiriad e-bost yn unig wedi'u darparu) neu wedi'u cwblhau mewn ffordd nad oedd yn bosibl pennu'n rhesymol a oedd yr ymatebydd yn gyffredinol o blaid neu'n gwrthwynebu rheoleiddio ychwanegol o ran egwyddor.

## Ansawdd yr ymatebion a gyflwynwyd drwy'r hwb: ffactorau cyfyngol

Daethom yn ymwybodol yn gynnar yn yr ymgynghoriad fod rhai sefydliadau rhanddeiliaid yn darparu tudalennau neu bostiadau gyda dehongliad penodol o'r hyn a gynigiwyd. Roedd y dehongliadau hyn yn aml yn anghywir, gan gyfeirio'n aml at "waharddiad" neu'n awgrymu mai Cymru fyddai'r wlad gyntaf yn y DU i drwyddedu rhyddhau adar hela. Roedd y tudalennau hyn wedyn yn cysylltu'n uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad, gan osgoi'r dudalen lanio lle roedd manylion y dull gweithredu arfaethedig a'r dogfennau ategol ar gael. Gwelsom nifer o ymatebion a oedd yn awgrymu nad oeddem wedi darparu unrhyw fanylion am y dull gweithredu arfaethedig na thystiolaeth i'w gefnogi. Arweiniodd hyn at bryder nad oedd rhai ymatebwyr yn ymwybodol bod yr wybodaeth hon ar gael ac felly nad oeddent yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn cael ei gynnig.

I gadarnhau, gwnaethom ddefnyddio *Google Analytics* i fonitro sut roedd defnyddwyr yn ymgysylltu â'r ymgynghoriad a dangosodd hyn mai dim ond tua 10% o ddefnyddwyr yn ystod y cyfnod a gafodd ei fonitro oedd wedi ymweld â thudalen lanio'r ymgynghoriad, ac o'r rhai a wnaeth, dim ond tua 20 eiliad oedd yr arhosiad cyfartalog.

Nid oedd platfform Citizen Space yn caniatáu i ni atal mynediad i'r arolwg heb ymweld â'r dudalen lanio yn gyntaf. Fodd bynnag, ar ôl i ni ddod yn ymwybodol o'r mater, gwnaethom ychwanegu llinell at bob tudalen o'r arolwg, gan egluro bod manylion a thystiolaeth ategol ar gael ar y dudalen grynodeb, a gwnaethom ychwanegu dolen i'r dudalen honno. Yn anffodus, awgrymodd dadansoddiad dilynol na chafodd hyn effaith sylweddol o ran annog ymatebwyr i weld ac adolygu'r dogfennau ymgynghori cyn ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad.

Rhaid i'r gwerthusiad o'r ymatebion gydnabod nad oedd yr holl ymatebwyr yn gwbl ymwybodol o'r cynigion cyn ymateb i'r cwestiynau. Mewn llawer o achosion, ni allwn ond bod yn hyderus bod yr ymatebion yn adlewyrchu agwedd ymatebydd at yr egwyddor gyffredinol o reoleiddio ychwanegol (ac yn aml ei agwedd at waharddiad canfyddedig) yn hytrach na'r dull penodol yr ymgynghorwyd yn ei gylch.

### Ymatebion lluosog gan unigolion

Gwelsom dystiolaeth eang o unigolion yn cyflwyno ymatebion lluosog. Gan nad oedd ein ffocws ar y niferoedd ac nad oedd hon yn “bleidlais” ac oherwydd nad oeddem yn dymuno atal unigolion a oedd wedi cyflwyno sylwadau sylweddol gwirioneddol rhag ychwanegu sylwadau sylweddol pellach yn ddiweddarach, ni wnaethom roi mecanweithiau ar waith i atal hyn.

Fodd bynnag, roedd disgwyliad gan rai y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei drin fel pleidlais. Fe'n hysbyswyd, trwy negeseuon cyfryngau cymdeithasol, bod rhai pobl yn cael eu hannog i ddefnyddio amrywiadau o'u henwau a chyflwyno ymatebion lluosog.

Bydd ymatebion lluosog gan unigolyn sy'n cynnwys cynnwys sylweddol yn cael eu hystyried a'u gwerthuso yn ôl eu teilyngdod, yn yr un modd ag unrhyw ymateb arall. Ni fydd ymatebion lluosog gan unigolion nad ydynt yn cynnwys cynnwys sylweddol yn cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar y gwerthusiad cyffredinol.

Tua diwedd y cyfnod ymgynghori, gwelsom dystiolaeth yn dangos bod nifer fawr iawn o ymatebion (>1,000) wedi’u rhoi i’r ymgynghoriad gan un unigolyn (neu grŵp o unigolion mewn un lleoliad) ond gan ddefnyddio gwahanol enwau a chyfeiriadau e-bost.[2] Credwn y gallai’r rhain fod yn gysylltiedig â deisebau a allai fod wedi’u casglu’n ganolog a’u defnyddio i lenwi’r ymgynghoriad ar-lein. Nid oedd y rhain fel arfer yn ymatebion sylweddol ac roedd cyfran sylweddol yn ymateb yn syml i bob cwestiwn gydag un llythyren ac felly’n wag i bob pwrpas.

## Ymatebion wedi'u cyflwyno trwy e-bost

Gwnaethom dderbyn **14,754** o ymatebion trwy e-bost. Er bod y rhan fwyaf o'r rhain (**14,720**) yn negeseuon e-bost ymgyrchoedd a gyflwynwyd gan ddefnyddio un o nifer o lwyfannau lobïo ar-lein. Cawsom nifer fach o ymatebion personol sylweddol gan unigolion drwy e-bost a chyflwynodd rhai sefydliadau rhanddeiliaid eu hymatebion fel dogfennau a oedd ynghlwm wrth negeseuon yn hytrach na defnyddio’r ffurflen ymgynghori ar-lein.

Tua diwedd yr ymgynghoriad, cawsom nifer o negeseuon e-bost yn ymwneud yn benodol â phryderon am yr effaith ar y Gymraeg.

## Negeseuon e-bost ymgyrchoedd

Cawsom negeseuon e-bost torfol gan dair ymgyrch. Yn nodweddiadol, cynhyrchwyd y negeseuon e-bost hyn trwy lwyfannau lobïo trydydd parti a defnyddiwyd testun safonol. Gan nad ydynt yn cynnwys safbwyntiau sylweddol unigol, maent o werth cyfyngedig, ond rhoddir testun a manylion llawn pob un isod.

[2] Roedd y rhain yn flociau mawr o ymatebion tebyg ac anarferol iawn. Mae blociau arferol o ymatebion gan unigolion sydd wedi defnyddio testun tebyg sydd wedi’i dorri a’i ludo a ddarperir gan randdeiliaid yn dangos dosbarthiad arferol o systemau gweithredu (casglir yr wybodaeth hon ac adroddir arni gan Citizen Space) ond, yn yr achosion hyn, roedd y systemau gweithredu yn union yr un fath.

### Negeseuon e-bost ymgyrchu gan y Gynghrair Cefn Gwlad

Dechreuon ni dderbyn y negeseuon e-bost hyn ar 29 Mawrth a gwnaethom barhau i'w derbyn drwy gydol yr ymgynghoriad, sef cyfnod o bron i 12 wythnos. Derbyniwyd cyfanswm o **12,935**.

Anfonwyd y negeseuon hyn i gyfeiriad gamebirds@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk. Anfonwyd y rhai gan ymatebwyr a osododd god post Cymru i fewnflwch yr Aelod Cynulliad perthnasol hefyd.

Roedd y negeseuon e-bost hyn yn defnyddio testun safonol, nad oedd yn ymddangos fel pe bai modd ei olygu. Mae'r testun safonol i'w weld yn Atodiad 2.

### Negeseuon e-bost ymgyrchu gan RSPB Cymru

Dechreuom dderbyn y negeseuon e-bost hyn ar 9 Mai a gwnaethom barhau i'w derbyn am weddill yr ymgynghoriad, sef cyfnod o tua chwe wythnos. Derbyniwyd cyfanswm o **1,478**.

Anfonwyd y negeseuon e-bost hyn i gyfeiriad gamebirds@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk a chopi i fewnflwch y Gweinidog Newid Hinsawdd.

Yn ogystal, rhwng 13 Mehefin a diwedd yr ymgynghoriad, wythnos yn ddiweddarach, cawsom **pum** fersiwn Gymraeg arall o'r un e-bost.

Roedd y negeseuon e-bost hyn yn defnyddio testun safonol. Er ei bod yn ymddangos bod modd golygu'r testun, cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r negeseuon heb ei ddiwygio. Mae'r testun safonol i'w weld yn Atodiad 3 ac Atodiad 4.

### Negeseuon e-bost ymgyrchu gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon

Dechreuom dderbyn y negeseuon e-bost hyn ar 14 Mehefin a gwnaethom barhau i'w derbyn am weddill yr ymgynghoriad, sef cyfnod o wythnos. Derbyniwyd cyfanswm o **302**.

Anfonwyd y negeseuon hyn i gyfeiriad gamebirds@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Roedd y negeseuon e-bost hyn yn defnyddio testun safonol. Er ei bod yn ymddangos bod modd golygu'r testun, cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r negeseuon heb ei ddiwygio. Mae'r testun safonol i'w weld yn Atodiad 5.

## Ymatebion a dderbyniwyd drwy'r post

Darparasom gyfeiriad post ar gyfer y rhai nad oeddent yn dymuno ymateb yn electronig. Cawsom ddau ymateb i'r cyfeiriad hwn, ac roedd un ohonynt yn cynnwys atodiadau. Roedd y llythyr arall a dderbyniwyd yn ddifrïol ei natur. Anfonwyd llythyr ychwanegol at Brif Weithredwr CNC mewn ymateb i'r ymgynghoriad ac fe'i cynhwyswyd wedyn fel ymateb i'r ymgynghoriad.

# Atodiad 1: Sefydliadau rhanddeiliaid a ymatebodd i’r ymgynghoriad

Derbyniwyd ymatebion ffurfiol gan y sefydliadau rhanddeiliaid canlynol; fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Amphibian and Reptile Conservation (ARC) Trust
Animal Aid
Born Free Foundation
British Association for Shooting and Conservation (BASC)
Cambrian Mountains Society
Campaign for National Parks
Ceiriog Uchaf Community Council
Coed Cadw/Woodland Trust
Coetir Anian - Cambrian Wildwood CIO
Countryside Alliance
Countryside Landowners Association (CLA) Cymru
Farmers' Union Wales (FUW)
Game and Wildlife Conservation Trust (GWCT) Cymru
Gwent Ornithological Society
Gwent Wildlife Trust
League Against Cruel Sports (LACS)
National Anti-Snaring Campaign
National Farmers Union (NFU) Cymru
National Gamekeepers' Organisation (NGO)
Oxygen Conservation
People's Trust for Endangered Species
Rewilding Britain
Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals (RSPCA)
Royal Society for the Protection of Birds (RSPB) Cymru
Shropshire Ornithological Society
Sparsholt College Game and Wildlife
Tir Natur
Wales Environment Link (WEL)
Welsh Ornithological Society
Wild Justice
Wildlife Guardian
Wildlife Trusts Wales

# Atodiad 2: Testun safonol e-bost ymgyrch y Gynghrair Cefn Gwlad

*"Dear Natural Resources Wales*

*I am contacting you in relation to NRW's proposed approach to the regulation of the release of gamebirds set out in the consultation launched on 27 March. As someone who has an interest in shooting in Wales please consider this email as a response to the consultation.*

*I believe that if the proposals outlined in the consultation are implemented, it could have a devastating negative impact on biodiversity and the livelihoods of those living in the Welsh countryside.*

*I am concerned the Welsh Government could push forward with regulation irrespective of the evidence produced by rural groups as part of the consultation process. The current proposals are not supported by the available evidence, and are wholly disproportionate.*

*The starting point is a total ban on the releasing of all gamebirds, effectively banning game shooting in Wales except where a licence has been granted. There is no certainty that the necessary licenses will be granted, for how long they will be granted and what the conditions of the licensing will be. The future of game shooting in Wales will have no certain future.*

*Over a million people are involved in shooting in Wales and across the UK; many more enjoy the end product as consumers of pheasant, partridge and other game. Moreover, shooting makes a substantial contribution to the rural economy – often at times and in places where other income is scarce. Shooting as an activity is well recognised as having a positive impact on participants' health and well-being too.*

*Rwy'n cysylltu â chi yn gysylltiedig â dull arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoleiddio rhyddhau adar hela, a amlinellir yn yr ymgynghoriad a lansiwyd ar 27 Mawrth. Byddwch cystal ag ystyried yr e-bost hwn yn ymateb i'r ymgynghoriad hefyd.*

*Os bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad yn cael eu gweithredu, credaf y gallant gael effaith negyddol ddinistriol ar fioamrywiaeth a bywoliaeth y bobl sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru. Rwy'n pryderu y gallai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r rheoliadau er gwaethaf y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu gan grwpiau gwledig fel rhan o'r broses ymgynghori. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn cefnogi'r cynigion presennol, sy'n hollol anghymesur.*

*Y man cychwyn yw gwahardd rhyddhau pob aderyn hela yn llwyr, sydd i bob diben yn gwahardd saethu adar hela yng Nghymru heblaw lle rhoddwyd trwydded. Nid oes sicrwydd y bydd y trwyddedau angenrheidiol yn cael eu rhoi, am ba hyd y cânt eu rhoi a beth fydd amodau'r drwydded. Ni fydd dyfodol sicr i saethu adar hela yng Nghymru.*

*Mae dros filiwn o bobl yn ymwneud â saethu yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig; mae llawer mwy yn mwynhau'r cynnyrch terfynol trwy fwyta ffesantod, petris ac adar hela eraill. At hynny, mae saethu'n cyfrannu'n sylweddol at yr economi wledig – yn aml ar adegau ac mewn mannau lle y mae incwm arall yn brin. Cydnabyddir bod saethu fel gweithgaredd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles y rhai sy'n cymryd rhan hefyd.*

*Please see my response to the consultation below - numbers refer to the relevant questions in the consultation:*

*4. Do you agree that common pheasant and red-legged partridge should be added to Part 1 of Schedule 9 of the Wildlife and Countryside Act 1981 in Wales? This change would mean that releasing those species in Wales would need to be carried out under licence. Please give reasons for your views.*

*No – The Welsh Government has made it clear on several occasions, most recently in a letter dated 2nd November 2021 from Julie James AS/MS, Minister for Climate Change, to Aim to Sustain stating that 'the Welsh Government do not support the shooting of live quarry as a leisure activity'. The current proposals would enable the Welsh Government to ban game shooting by preventing or severely restricting gamebird releasing in the future. The timing of this consultation, before all the evidence is available, clearly shows that this is being politically driven and is not evidence based.*

*The proposals are neither proportionate nor reasonable given the available evidence. We are currently in the first year of a three-year research project being undertaken by Defra, Natural England, and the Animal and Plant health Agency. The project was commissioned following gaps identified in the existing evidence that had been highlighted during the review into the ecological consequences of gamebird releasing and management on lowland shoots in England undertaken in 2021, and the fact that Natural England has failed to keep its consenting regime up to date, putting it at risk of legal challenge regarding its legal duties relating to EU sites. Defra will use the results to inform its wider work on considering longer term regulatory solutions around gamebird releases on and around European sites. NRW should also wait to see the evidence before taking a view as to if and how to regulate gamebird releasing.*

*The licence provides the exception to the general prohibition. What is currently lawful is made unlawful unless licensed. The future of game shooting across the whole of Wales, not just on designated sites as now, would be entirely in the gift of NRW and ultimately at the whim of ministers, putting at risk the considerable economic, conservation and wellbeing benefits that shooting provides in Wales.*

*There is simply not enough evidence to justify the extent of the current proposals, and what amounts to the licensing of game shoots in Wales, as releasing is a key element of the activity.*

*5. If these species are added to Schedule 9, please give us your views on whether our proposed licensing approach would be effective and proportionate?*

*No. As I do not accept the need for common pheasant and red-legged partridge to be added to Schedule 9 of the Wildlife and Countryside Act 1981 in Wales. There is simply not enough evidence to justify the extent of the current proposals and the effective wholesale licensing of game shoots in Wales.*

*6. We have based the proposed general licence conditions for pheasant release on the recommendations in the GWCT guidelines for sustainable gamebird releasing. However, the guidelines do not include specific density thresholds for red-legged partridge and there appears to be less evidence on which to base conditions relating to partridge. We have used what evidence is available, and expert opinion, to propose conditions for partridge releases. These are either based on a density threshold linked to the area of cover crop provided, or on density per hectare of release pen (as with pheasants), depending on how the birds are released. We would welcome views*

*on whether these proposals are appropriate and workable and whether they could they be improved.*

*No. As I do not accept the need for licensing in Wales. I believe that allowing the sector to self-regulate based on GWCT guidelines for sustainable gamebird releasing is the right course of action. There is simply not enough evidence to justify the extent of the current proposals and the effective wholesale licensing of game shoots in Wales.*

*7. The GWCT guidelines include a recommendation that no more than one third of woodland with game interest should be used for release pens. This is to ensure sufficient woodland remains that can benefit from habitat management activities. We would like to include this recommendation in our proposed general licence. However, we would prefer to be able to define what can be included in the calculation. Do you have suggestions for how this might be achieved?*

*No. As I do not accept the need for licensing in Wales. I believe that allowing the sector to self-regulate based on GWCT guidelines for sustainable gamebird releasing is the right course of action. There is simply not enough evidence to justify the extent of the current proposals and the effective wholesale licensing of game shoots in Wales.*

*8. Location and density appear to be the main factors influencing the environmental impact of releases, but we recognise that smaller releases in less sensitive areas are likely to present reduced risks. It may be appropriate that small gamebird releases taking place away from sensitive protected sites and their buffer zones are not subject to the same general licence conditions that apply to larger releases. Do you think this is something we should consider? Please give reasons*

*No. As I do not accept the need for licensing in Wales. There is simply not enough evidence to justify the extent of the current proposals and the effective wholesale licensing of game shoots in Wales.*

*Yours sincerely*

*NAME*

*ADDRESS*

*EMAIL"*

# Atodiad 3: Testun safonol e-bost ymgyrch RSPB Cymru (Saesneg)

*“**Please Regulate Gamebird Release in Wales***

*To Whom It May Concern,*

*I am writing to show my support for proposals by Natural Resources Wales to improve the regulation of non-native gamebirds released into the countryside. I know that RSPB Cymru and other organisations have growing concerns about the environmental impact of these releases, based on reviewing the same evidence used by NRW.*

*There is no evidence that the necessary changes will be achieved by relying on self-regulation and so I fully support the proposals to add Pheasant and Red-legged Partridge to Schedule 9 of the Wildlife & Countryside Act and to require a licence to release gamebirds. I hope that these proposals will be enacted by NRW and Welsh Government.*

*I share the concerns expressed by several organisations about the inadequacy of a General Licence for releases away from most SSSIs. There are sites that are sensitive to damage across Wales, especially the 91% of Ancient Semi-natural Woodland that is not protected by site designation. I ask NRW to reconsider their proposal to permit releases under a General Licence.*

*There is broad agreement that data on releases of Red-legged Partridge and Pheasant are woefully inadequate. I support the view that the proposals miss an important opportunity for NRW to gather more information about the scale and location of releases. I believe that all who release non-native gamebirds should be required to provide this data to NRW annually as a condition of any licence, to enable NRW to understand the future trends.*

*Kind regards,*
*NAME*

*cc: Julie James MS”*

# Atodiad 4: Testun safonol e-bost ymgyrch RSPB Cymru (Cymraeg)

*“**Rheoleiddiwch y Broses o Ryddhau Adar Hela yng Nghymru***

*Helo,*

*Rwy’n ysgrifennu i ddangos fy nghefnogaeth i gynigion gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wella’r broses o reoleiddio adar hela anfrodorol sy’n cael eu rhyddhau i gefn gwlad. Rwy’n gwybod bod gan RSPB Cymru a sefydliadau eraill bryderon cynyddol am effaith amgylcheddol rhyddhau'r adar hyn, ar ôl adolygu’r un dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.*

*Nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud drwy ddibynnu ar hunan-reoleiddio ac felly rwy’n cefnogi’n llwyr y cynigion i ychwanegu Ffesantod a Phetris Coesgoch at Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad ac i fynnu trwydded i ryddhau adar hela. Rwy’n gobeithio y bydd y cynigion hyn yn cael eu rhoi ar waith gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.*

*Rwy’n rhannu’r pryderon a fynegwyd gan nifer o sefydliadau ynghylch diffyg Trwydded Gyffredinol ar gyfer rhyddhau adar hela i ffwrdd o’r rhan fwyaf o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae safleoedd sy’n sensitif i ddifrod ledled Cymru, yn enwedig y 91% o Goetir Lled-naturiol Hynafol nad yw’n cael ei warchod gan ddynodiad safle. Rwy’n gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ailystyried ei gynnig i ganiatáu rhyddhau o dan Drwydded Gyffredinol.*

*Cytunir yn gyffredinol bod y data ar ryddhau Petris Coesgoch a Ffesantod yn druenus o annigonol. Rwy’n cefnogi'r farn bod y cynigion yn colli cyfle pwysig i Cyfoeth Naturiol Cymru gasglu rhagor o wybodaeth am raddfa a lleoliad y rhyddhau. Rwy’n credu y dylai fod yn ofynnol i bawb sy’n rhyddhau adar hela anfrodorol ddarparu’r data hwn i Cyfoeth Naturiol Cymru bob blwyddyn fel un o amodau unrhyw drwydded, er mwyn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall tueddiadau’r dyfodol.*

*Cofion gorau,*
*ENW*

*cc: Julie James MS”*

# Atodiad 5: Testun safonol e-bost ymgyrch y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon

*"**Consultation Response***

*Dear Natural Resources Wales,*

*I write in response to the consultation on NRW's proposed approach to regulating the release of gamebirds (common pheasant and red-legged partridge) in Wales.*

*I strongly support the proposals to add common pheasant and red-legged partridge to Part 1 of Schedule 9 of the Wildlife and Countryside Act in Wales. Self-regulation has failed and statutory regulation for the release of non-native birds such as pheasant and partridge is a measured and proportionate response to the negative environmental impacts of mass game bird releases.*

*One of the key ways the proposals should be improved is to require all releases to be individually licensed and information on their scale and location reported to NRW. I am concerned that allowing release under a General License away from protected sites will undermine the aim of better protecting the environment. Such licences lack registration or reporting requirements and will not enable NRW to ensure compliance or monitor their impact on the environment.*

*The stated aim of the proposed new system is to protect the environment and biodiversity. This is reflected in the use of buffer zones around protected sites. I am concerned however, that the proposed 500m buffer zone is insufficient given that game birds wander beyond this limit. If we are to meet our environmental goals and responsibilities in Wales, we must do all we can to protect nature and biodiversity including taking a precautionary approach to prevent further damage being inflicted on our already suffering natural world. The release of game birds close to environmentally vulnerable areas unnecessarily risks delicate eco-systems. There is good reason to support the increasing of this buffer zone to 1km.*

*NRW has acknowledged there is a lack of evidence on the scale and effect of game bird release, particularly the impact of the release of red-legged partridge. Without appropriate reporting tools in place, along with a requirement for all shoots to report releases, it is difficult to see how an evidence gap such as this can be closed. Additionally, there remains a lack of information on how compliance with the proposed system will be ensured and enforced. Given the acknowledged low levels of compliance by the industry with existing measures, this is a significant concern to me.*

*I strongly support the need for a new approach which prioritises the environment and biodiversity, and which adds pheasants and red-legged partridges to Schedule 9. I hope that you will also take on board the above suggestions to further protect Wales' natural environment during this time of climate emergency.*

*Kind regards,*
*NAME*
*ADDRESS*